



## Ysgol Pentreuchaf

### 146. Polisi Ymateb i Waith Plant

#### Nod

Creu hunan hyder ym mhob plentyn gan sicrhau bod pob un yn cael mesur o lwyddiant ym mhob agwedd o'i waith. Datblygu yn y disgyblion, agwedd gadarnhaol at hunan-asesu i wella safon popeth wna'r plant. Creu perthynas dda rhwng disgybl ac athro gan ddatblygu syniad o barch at bob ymdrech gan blentyn.

#### Amcanion

1. Bod plant yn gwybod beth i wneud a sut i wella eu gwaith.
2. Sicrhau bod pob plentyn yn dysgu'r sgil o gyfathrebu gyda'i gyd-ddisgyblion a'r athro er mwyn medru trafod ymateb pobl eraill i'w waith.
3. Ceisio sicrhau bod y plentyn yn cael gwefr o weld ei waith yn cael ei arddangos a'i gyhoeddi.
4. Meithrin hunan-gywiro drwy ddyfalbarhad.
5. Ymateb yn gadarnhaol i gryfderau gwaith gan geisio peidio canolbwyntio ar wendidau yn unig gan roddi ystyriaeth i oedran a gallu'r plant.

#### Canllawiau

1. Dylai adborth ar waith disgybl fod yn ddealladwy i bawb – athrawon, disgyblion a rhieni.
2. Dylai adborth fod yn adlewyrchiad o bolisi asesu a chanllawiau dysgu ac addysgu'r ysgol
3. Dylai darparu adborth fod yn broses ddwyffordd. Dylai annog deialog a datblygu sgiliau hunan asesu'r dysgwyr.
4. Rhaid i adborth fod yn benodol, yn cyfeirio at ddisgwyliadau'r dasg, y meini prawf llwyddiant a'r safonau disgwyliedig, a'r rheini yn glir a dealladwy i'r disgyblion.
5. Er mwyn i'r adborth fod yn effeithiol, dylai gynnwys tri pheth; canmol a nodi beth yn union mae'r dysgwyr wedi ei gyflawni'n dda, beth nad ydynt wedi ei wneud cystal, a nodi sut y gallent wella ar y gwaith.
6. Rhaid bod yn benodol ynglŷn a beth sydd yn dda neu ddim cystal wrth roi adborth. Mae gosodiadau megis 'Da iawn' a 'Rhaid gwella dy atalnodi' yn annelwig ac nid ydynt yn gymorth ar gyfer y camau nesaf yn y dysgu. Mae sylwadau da yn glir, yn gryno ac yn cyfeirio'n benodol at y dasg. Dylid osgoi gor-ganmol a gorddefnydd o eiriau megis 'Gwych!' 'Ardderchog!' a'u defnyddio ar achlysuron gwirioneddol haeddiannol yn unig.
7. Nid oes un ffordd 'gywir' o roi adborth ar waith – dylai'r strategaeth fod yn addas ar gyfer pwrpas y dasg a chyd-destun y gwaith.
8. Mae modd i adborth gynnwys modelau neu enghreifftiau da / cywir o sut i wneud / wella'r gwaith.
9. Mae adborth effeithiol yn gallu bod yn sgaffald i ddysgwyr feddwl am eu gwaith a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu
10. Rhaid i farcio fod yn bwrpasol. Nid yw ysgrifennu dros y gwaith a chywiro pob un camgymeriad yn mynd i helpu unrhyw ddisgybl i wella. Mae'n dderbyniol, yn enwedig gyda disgybl gwan, i gywiro rhan o'r gwaith yn unig, neu dynnu sylw at y gwallau sylfaenol. Mae modd cywiro gwaith drwy ddefnyddio codau, rhoi sylwadau yn ymyl y ddalen, cylchu, neu danlinellu.
11. Mae'n hanfodol fod dysgwyr yn cael y cyfle i ystyried yr adborth ar eu gwaith, ac yn cael amser i ymateb i unrhyw gamau / gywiriadau er mwyn gwella. Mae'n arfer dda i'r dysgwyr ymateb eu hunain i'r adborth – sylwadau byr i sicrhau dealltwriaeth o'r camau nesaf yn y dysgu
12. Gellir rhoi adborth yn cynnwys targedau tymor byr i wella, neu dargedau hirdymor.
13. Gall adborth / ymyrraeth ddigwydd ar ganol tasg er mwyn sicrhau bod disgybl yn cadw ar y trywydd cywir.
14. Dylai gwaith dilynol y disgybl ddangos gwelliant yn sgil yr adborth a'r sylwadau gan yr athro.
15. Wrth i ddysgwyr datblygu eu dealltwriaeth o Feini Prawf Llwyddiant, gallant ddechrau hunan asesu ac asesu gwaith eu cyfoedion

#### Casgliad

Dylai pob athro feithrin sensitifrwydd wrth ymateb i waith plentyn, iddo gael datblygu ei ddoniau a'i dalentau, a dod i adnabod ei hun, ei gryfderau a'i wendidau. Byddwn hefyd yn anelu at ddatblygu yn y plentyn hunan ddisgyblaeth, hunan barch a hunan hyder ynghyd â'r gallu i edrych ar ei waith yn wrthrychol a'i wella.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_